Gan Emyr George, Cyfarwyddwr Cyswllt, Cymwysterau Cymru

Dyfodol llwyddiannus i Fagloriaeth Cymru

Mae'r cymhwyster sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru yn cynnig profiad dysgu gwerthfawr i ddisgyblion. Dyna gasgliad yr adolygiad y gwnaethom ei gomisiynu y llynedd o'r Dystysgrif Her Sgiliau – cymhwyster newydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru sydd newydd gael ei ddiwygio.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster sy'n datblygu ac yn asesu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar fyfyrwyr ar gyfer astudio ymhellach a chyflogaeth. Mae myfyrwyr yn astudio fersiynau gwahanol o'r cymhwyster yn dibynnu ar p'un a ydynt yn ei astudio ochr yn ochr â'u cymwysterau TGAU, Safon Uwch neu gymwysterau ôl-16 eraill. Mae pob un o'r fersiynau yn dilyn yr un strwythur sylfaenol, sy'n gofyn i fyfyrwyr gwblhau prosiect ymchwil annibynnol ar bwnc o'u dewis, a thair her â themâu sy'n ymwneud â'r gymuned, dinasyddiaeth fyd-eang a chyflogaeth.

Y llynedd, gwnaethom ofyn i ymchwilwyr annibynnol edrych yn fanwl ar ddyluniad y Dystysgrif Her Sgiliau ac i gyfweld â myfyrwyr, athrawon a darlithwyr i weld sut mae'n gweithio'n ymarferol. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Wavehill Ltd, cwmni ymchwil cymdeithasol ac economaidd wedi'i leoli yng nghanolbarth Cymru, a Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain.

Gwnaethant ganfod fod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster arloesol a gwerthfawr sydd wedi'i ategu gan egwyddorion hynod berthnasol. Daethant i'r casgliad ei fod yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau hanfodol sydd o fudd i'w dyfodol – y sgiliau y mae cyflogwyr yn dweud yn gyson bod eu hangen ar bobl ifanc i lwyddo yn y gweithle.

Gwnaeth yr ymchwilwyr hefyd ofyn i fyfyrwyr, athrawon a darlithwyr am eu profiadau o'r Dystysgrif Her Sgiliau newydd a Bagloriaeth Cymru. Gwnaeth staff addysgu fynegi cryn gefnogaeth iddo a dywedodd y myfyrwyr eu bod yn mwynhau meithrin sgiliau

newydd a chael y cyfle i ganolbwyntio ar bethau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, rhywbeth nad ydynt yn cael cyfle i wneud bob amser mewn pynciau eraill.

Tra'n nodi cryfderau a manteision clir y Dystysgrif Her Sgiliau, gwnaeth yr adolygiad hefyd dynnu sylw at agweddau ar y ffordd y mae wedi'i ddylunio a'i asesu y gellid eu symleiddio yn y dyfodol.

Gwnaeth yr adolygiad hefyd nodi bod lefelau anghyson o ddealltwriaeth o'r Her Dystysgrif Her Sgiliau a'i chysylltiad â Bagloriaeth Cymru ymhlith myfyrwyr ac athrawon. Dywedodd rhai eu bod yn ei chael hi'n anodd disgrifio'r Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru i eraill.

Mae'r adolygiad yn cynnig wyth argymhelliad i ni eu hystyried. Mae rhai o'r rhain yn canolbwyntio ar sut i gefnogi'r ffordd y caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei chyflwyno ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae'n argymell buddsoddi mewn rhaglen o hyfforddiant a chymorth parhaus i staff sy'n rhan o'r gwaith o'i haddysgu. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi y gellid gwneud mwy i esbonio beth yw'r Dystysgrif Her Sgiliau, beth mae dysgwyr yn ei chael o'i chyflawni a beth yw barn prifysgolion a chyflogwyr arni.

Mae rhai o'r argymhellion yn fwy blaengar ac yn awgrymu ffyrdd y gellid symleiddio dyluniad y cymhwyster yn y dyfodol. Wrth wneud yr argymhellion hyn, mae awduron yr adroddiad yn pwysleisio'r angen i adeiladu ar gryfderau'r dyluniad presennol. Maent yn gofyn i ni beidio â brysio i wneud newidiadau heb ymgynghori ar b'un a ddylid eu cyflwyno, a phryd a sut y dylid eu cyflwyno yn gyntaf.

Rydym yn sefydlu gweithgor i ystyried ffyrdd o weithredu ar yr argymhellion. Byddwn hefyd yn sefydlu panel o fyfyrwyr, staff addysgu, cyflogwyr a phrifysgolion i brofi a mireinio unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ffordd newydd ac arloesol o ddatblygu ac asesu sgiliau bywyd pwysig. Mae'r darn cynnar hwn o ymchwil yn helpu i bennu cyfeiriad proses barhaus o adolygu a mireinio. Bydd y dystiolaeth ohoni yn ein galluogi i esblygu'r cymhwyster yn raddol er mwyn iddo barhau i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r bobl ifanc sy'n ei astudio.